SWYDDOG DATBLYGU GWEITHREDOL

GWYBODAETH GEFNDIROL

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i gefnogi twf cynaliadwy yn y sector ffilm yng Nghymru, ac i wella mynediad pobl Cymru at ffilm a'i fanteision. 'Rydym yn gweithio ar draws y sector cyfan gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu ffilm, cefnogi sinemâu, gwyliau ffilm, addysg ffilm a'r cyfryngau. Gwnawn hyn drwy hyrwyddo, cynnig cyngor, darparu arian, a chynnig cyfle i ddatblygu sgiliau. Mae ein hymrwymiad i weithredu'n gynhwysol yn ganolog i'n gwaith: 'rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'n gweithgareddau, ac yn anelu at gyrraedd y targedau cynhwysiad a ddaw o wybodaeth gasglwyd yn sgil y Cyfrifiad i Gymru, ac yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae tîm Busnes Creadigol Ffilm Cymru Wales yn gyfrifol am ddosbarthu arian ar gyfer datblygu a chynhyrchu ffilmiau; y cynllun ffilmiau cyllideb bychan 'Cinematic'; Rhwydwaith Talent Cymru ar gyfer gwneuthurwyr ffilm newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg; cynnig cymorth i'ch cwmni; a threfnu digwyddiadau a rhaglenni hyfforddiant penodol ar gyfer datblygu talent.

Mae adran Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio Ffilm Cymru yn gyfrifol am reoli ein cronfa ar gyfer addysg ffilm a mynediad i gynulleidfaoedd, gan gyd-weithio â'r tîm Busnes Creadigol i sicrhau y bydd pob adran yn gwneud y gorau o bob cyfle posib, fel cynhyrchu adnodau addysg ategol ar gyfer y ffilmiau nodwedd a ariennir gan Ffilm Cymru Wales.

Mae arian datblygu a chynhyrchu ar gael i ffilmiau nodwedd sy'n gymwys i gael eu galw'n ffilmiau Prydeinig ac sy'n dod â budd i Gymru, gyda phwyslais amlwg ar brosiectau sy'n ymwneud ag awduron, cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr sydd NAILL AI wedi eu geni NEU sy'n byw yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae gennym tua 50 o brosiectau ar ein llechen datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys amrediad eang o genres a chyllidebau, gan gynnwys dogfennau a gwaith animeiddio. 'Rydym yn cyflwyno arian datblygu ddwywaith y flwyddyn ar ddyddiadau penodol, gan anelu at 8-12 prosiect bob blwyddyn. Bydd rhywfaint o'r arian hwn yn mynd tuag at brosiectau sydd eisoes mewn datblygiad.

'Rydym yn canolbwyntio nid yn unig ar brosiectau a thalent penodol, ond ar y cyd-destun ehangach ble mae busnesau ffilm Cymru yn esblygu, gan gyfrannu at dwf y sector- yn fwyaf arbennig drwy annog a chefnogi datblygiad Eiddo Deallusol ategol, ac ystyried strategaethau datblygu cynulleidfaoedd yn fuan yn y broses. Mae'r argymhellion hyn i'w gweld yn glir yn ein cynllun Magnifier.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.ffilmcymruwales.com – Gwneud.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Cefnogi gweithgareddau datblygu talent Ffilm Cymru Wales parthed rhannu arian i ddatblygu ffilmiau nodwedd. Gan gyd-weithio â'r Swyddog Datblygu Gweithredol arall, deiliad y swydd fydd y cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau o ran arian datblygu, ac ar gyfer y dalent sy'n derbyn arian datblygu gennym. Bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r dalent sy'n derbyn arian datblygu, yn goruchwylio datblygiad eu prosiectau yn unol â thargedau allweddol, yn dod o hyd i dalent arall a phartneriaid diwydiannol strategol cyfatebol, ac adnabod unrhyw gefnogaeth arall gall fod o fudd iddynt a'u prosiect o ran gweithgareddau'r adran Greadigol. Bydd deiliad y swydd yn allweddol i gynllun Magnifier Ffilm Cymru Wales, gan adnabod cyfleoedd i ddatblygu cynulleidfaoedd ac i hybu Eiddo Deallusol (ED) ychwanegol i brosiectau sy'n derbyn arian dabtlygu, gan weithio'n glos â'r Swyddog Datblygu Gweithredol, y Pennaeth Busnes Creadigol a'r Rheolwr Cynulleidfaoedd, Addysg ac Adfywio.

Bydd deiliad y swydd yn atebol i'r Pennaeth Busnes Creadigol ac yn gweithio'n agos â'r tîm Busnes Creadigol, yn enwedig y Swyddog Datblygu Gweithredol, y Rheolwr Cynhyrchu a Phrosiectau Arbennig, a Rheolwr Rhwydwaith Talent

Cymru er mwyn amlygu talentau nad ydynt wedi gweithio ar ffilm nodwedd o'r blaen ond a allai elwa o weithgareddau rhwydweithio, fel mentora neu gyfarfodydd gyda phobl sy'n yr un sefyllfa. Mae'r gweinyddydd yn darparu cefnogaeth ar gyfer y tîm creadigol, tra hefyd yn cefnogi'r gwaith o chwilio ac olrhain talent.

PRIF DDYLETSWYDDAU & CHYFRIFOLDEBAU

Gweithio i'r rheolwr llinell, sef y Pennaeth Busnes Creadigol:

- Bod yn fan cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau a cheisiadau am arian datblygu, a chysylltu'n uniongyrchol â darpar ymgeiswyr sy'n cyd-fynd â'r bwriad o wella amrywiaeth y ceisiadau.
- Cyd-weithio â'r Gweinyddwr ar bob cais newydd- a chysylltu gyda'r ymgeiswyr os oes angen rhagor o wybodaeth.
- Asesu ceisiadau yn greadigol ac yn fasnachol, gan gymryd rhan mewn penderfyniadau ariannu am symiau hyd at £49,999 a chyfrannu at argymhellion ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd am ddyfarniadau o £50,000 neu ragor.
- Paratoi cytundebau arian datblygu, dan arweiniad y rheolwr llinell.
- Rheoli gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwaith datblygu, monitro cynnydd prosiectau, a threfnu talu'r gyllideb fesul rhandaliad pan mae'r amodau wedi eu bodloni.
- Cefnogi datblygiad creadigol a masnachol y prosiectau sy'n cael eu hariannu. Y flaenoriaeth yw hybu'r tîm cynhyrchu i ddatblygu eu prosiect ymhellach. Dylai'r swyddog weithio'n agos â'r dalent er mwyn awgrymu golygyddion sgript ac uwch gynhyrchwyr addas, ac unrhyw fentrau ariannu a phartneriaid eraill yn y diwydiant all ddatblygu'r prosiect ymhellach.
- Yn ogystal â'r uchod, dylai'r swyddog adnabod cyfleoedd i ddatblygu cynulleidfaoedd neu gyfleoedd am ED ychwanegol yn ystod camau allweddol y prosiect, gan gysylltu â'r Rheolwr Cynulleidfaoedd, Addysg ac Adfywio a'r Pennaeth Busnes Creadigol.
- Amlygu'r dalent nad yw wedi cynhyrchu ffilm nodwedd o'r blaen i Reolwr Rhwydwaith Talent Cymru- talent newydd allai elwa o weithgareddau rhwydweithio a ariennir- ac olrhain y dalent sydd yn y Rhwydwaith allai fod yn barod i dderbyn arian datblygu.
- Adnabod a datblygu partneriaethau gydag arianwyr a sefydliadau addas ar gyfer hyrwyddo'r dalent a'r prosiectau sy'n cael eu datblygu, gan gynnwys cronfeydd ffilm cenedlaethol a rhyngwladol eraill, darlledwyr, a sefydliadau celfyddydol, digidol a chreadigol eraill sy'n rhan o'r diwydiant.
- Cefnogi a chyflwyno rhaglenni a digwyddiadau datblygu talent, pan fo angen.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm a sicrhau fod statws y llechen yn cael ei diweddaru'n gyson.
- Nodi unrhyw fylchau amlwg, pan gyflwynir unrhyw gais, yng nghyswllt cynllun Cynhwysiant ac Amrywiaeth Ffilm Cymru Wales.
- Ymchwilio a chynnig hyrwyddwyr posib i gefnogi datblygu ED ehangach a chynlluniau i ddatblygu cynulleidfaoedd, ar gyfer y prosiectau a gefnogir.
- Cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd datblygu, mewn digwyddiadau a gwyliau ayb gan eirioli ar ran ein gwaith, ac ar ran talent a phrosiectau Cymru, ar gais eich rheolwr llinell.
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw ddatblygiadau a chyfleoedd yn y sector, a chysylltu â'n Swyddog Cyfathrebu i sicrhau fod cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thalent yn cael eu hamlygu i'n cleientiaid.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol y gall y Pennaeth Busnes Creadigol ofyn i chi ymgymryd â nhw.

MANYLION Y PERSON

- Profiad amlwg o asesu a datblygu prosiectau nodwedd ac o gefnogi talent greadigol.
- Craffter creadigol a masnachol rhagorol.
- Gwerthfawrogiad cryf o'r hyn sy'n ymarferol o ran amrywiaeth o gyllidebau cynhyrchu, ac ymwybyddiaeth eang o'r farchnad.
- Y gallu i gefnogi strategaethau datblygu cynulleidfa a dealltwriaeth o botensial ehangach eiddo deallusol.
- Sgiliau gweinyddol a chyfathrebu cryf a manwl.
- Y gallu i ysgogi eich hun i weithio, a phrofiad o oruchwylio swmp sylweddol o waith gyda lefel sylweddol o gyfrifoldeb.
- Dwy-ieithog- Cymraeg/Saesneg- dymunol.

Mae gan Ffilm Cymru Wales Bolisi Recriwtio Cyfleoedd Cyfartal.